

CYFARWYDDIADAU

1. Gweithgaredd cyfieithu

(tudalen dwyieithog)

- A. Dylai fod copi i bob pâr o dysgwyr. Plygwch y sgwrs ar y llinell. Y dysgwyr i edrych ar un iaith a cheisio dweud beth ydy o yn yr iaith arall. Mae hi wastad yn well dechrau efo Cymraeg i Saesneg (sy'n hawdd), yna Saesneg i Gymraeg
- B. Gofynnwch i'r dysgwyr amrywio'r sgwrs drwy newid y geiriau mewn coch.

2. Gweithgaredd cyfieithu a rhoi mewn trefn

Argraffwch y tudalennau gefn wrth gefn. Torrwch y ddeialog mewn stribedi, gan ddefnyddio'r llinellau ar yr ochr Gymraeg.

Mae'n bosib gwneud y gweithgaredd fel dosbarth neu mewn parau, felly dewiswch sawl copi sydd angen eu hargraffu.

Rhowch y llinellau (ochr Gymraeg i fyny) ar wasgar ar fwrdd. Yna, mae'r dysgwyr yn eu rhoi mewn trefn. Dilyniant naturiol i hwn yw i'r dysgwyr geisio cyfieithu'r llinellau un wrth un, gan eu troi rownd unwaith maen nhw'n sicr o'r ystyr. Bydd y goreuon yn mynd syth i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg fel cam nesaf.

SGWRS 1 Tudalen 74

Mam:	Rwyt ti'n edrych yn ofnadwy bore 'ma.	<i>You look dreadful this morning.</i>
	Be wnest ti yn y dre neithiwr?	<i>What did you do in town last night?</i>
Sam:	Mi wnes i gyfarfod ffrindiau.	<i>I met (some) friends.</i>
Mam:	Be wnest ti wedyn?	<i>What did you do afterwards?</i>
Sam:	Mi wnes i ddŵad yn syth adre.	<i>I came straight home.</i>
Mam:	Wnest ti brynu cyrri i ddŵad adre, Sam?	<i>Did you buy a curry to come home, Sam?</i>
Sam:	Pam, Mam?	<i>Why, Mum?</i>
Mam:	Achos mae 'na reis ar fwrdd y gegin.	<i>Because there's rice on the kitchen table.</i>
Sam:	Sori, Mam.	<i>Sorry, Mum.</i>
Mam:	A sut wnest ti ddŵad adre?	<i>And how did you come home?</i>
Sam:	Mi wnes i ddŵad adre mewn tacsi.	<i>I came home in a taxi.</i>
Mam:	Pam, Sam?	<i>Why, Sam?</i>
Sam:	Mi wnes i golli'r bws.	<i>I missed the bus.</i>
Mam:	Pryd wnest ti ddŵad adre?	<i>When did you come home?</i>
Sam:	Dw i ddim yn siŵr, wnes i ddim edrych ar y cloc.	<i>I'm not sure, I didn't look at the clock.</i>
Mam:	Mi wnest ti gyrraedd adre am bedwar o'r gloch, Sam.	<i>You came home at four o'clock, Sam.</i>
Sam:	O diar.	<i>O dear.</i>

Rwyt ti'n edrych yn ofnadwy bore 'ma.

Mi wnes i gyfarfod ffrindiau.

Be wnest ti wedyn?

Mi wnes i ddŵad yn syth adre.

Wnest ti brynu cyrri i ddŵad adre, Sam?

You look dreadful this morning.

I met (some) friends.

What did you do afterwards?

I came straight home.

Did you buy a curry to come home, Sam?

Pam, Mam?

Achos mae 'na reis ar fwrdd y gegin.

Sori, Mam.

A sut wnest ti ddwâd adre?

Mi wnes i ddwâd adre mewn tacsî.

Why, Mum?

Because there's rice on the kitchen table.

Sorry, Mum.

And how did you come home?

I came home in a taxi.

Pam, Sam?

Mi wnes i golli'r bws.

Pryd wnest ti ddwâd adre?

**Dw i ddim yn siŵr,
wnes i ddim edrych ar y cloc.**

**Mi wnest ti gyrraedd adre
am bedwar o'r gloch, Sam.**

Why, Sam?

I missed the bus.

When did you come home?

*I'm not sure,
I didn't look at the clock.*

*You came home
at four o'clock, Sam.*

Be wnest ti yn y dre neithiwr?

O diar.

What did you do in town last night?

O dear.